# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 9 IONAWR 2019

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| H.I. Jones | K.V. Broom | C.A. Campbell | J.M. Charles |
| D.M. Cundy | S.A. Curry | C.A. Davies | T.A.J. Davies |
| G. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies | S.L. Davies |
| W.R.A. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds | P.M. Edwards |
| D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans | R.E. Evans |
| W.T. Evans | A.L. Fox | S.J.G. Gilasbey | P. Hughes-Griffiths |
| A.D. Harries | T.M. Higgins | J.K. Howell | P.M. Hughes |
| A. James | J.D. James | R. James | D.M. Jenkins |
| J.P. Jenkins | G.H. John | C. Jones | B.W. Jones |
| D. Jones | G.R. Jones | M.J.A. Lewis | K. Lloyd |
| K. Madge | S. Matthews | A.S.J. McPherson | E. Morgan |
| A.G. Morgan | D. Nicholas | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips |
| D. Price | J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | E.M.J.G. Schiavone |
| H.B. Shepardson | A.D.T. Speake | L.M. Stephens | D. Thomas |
| E.G. Thomas | G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett |
| A.Vaughan Owen | D.T. Williams | D.E. Williams | J.E. Williams |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 - 11.05 am**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, S. Allen, L. Bowen, H. Davies, K. Davies, J. Jones, A. Lenny, S. Najmi a B. Thomas.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A. Speake | 8.– Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2019/20 | Mae'n derbyn pensiwn anabledd rhyfel. |

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

- Estynnodd y Cadeirydd gyfarchion i'r Cynghorwyr J. James a J. Prosser wrth iddynt ddychwelyd ar ôl eu llawdriniaeth yn ddiweddar a dymunodd wellhad buan iddynt;
- Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Is-gadeirydd wedi cael y fraint o gynrychioli'r Cyngor mewn nifer o ddigwyddiadau a'u bod yn gobeithio y byddant yn cael eu gwahodd i'r wardiau hynny nad ydynt wedi ymweld â nhw hyd yn hyn yn ystod y misoedd nesaf;
- Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cymryd rhan yn Nhrochfa'r Tymor ar Ŵyl San Steffan i godi arian ar gyfer elusen. Diolchodd i'w holl noddwyr yn ogystal ag Eira Evans am ddarparu'r ffurflenni nawdd;
- Wedi dadorchuddio'r plac glas cyntaf yn nhref Llanymddyfri, diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Handel Davies a Chyngor Tref Llanymddyfri am eu gweledigaeth. Mae'r plac yn coffáu y Ficer Rhys Prichard. Bu i'r Cadeirydd annog Cynghorwyr sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig i ganfod a oes pobl neu adeiladau yn eu wardiau sydd â gwerth hanesyddol iddynt ond sy'n cael eu hanghofio;
- Cydymdeimlodd y Cadeirydd â'r Cynghorydd Jim Jones yn dilyn marwolaeth ei frawd Graham, ac â'r Cynghorydd Bill Thomas a'i bartner Catherine yn dilyn marwolaeth mam Catherine;
- Aeth y Cadeirydd ati i longyfarch:
  - Dylan Morgan, disgybl blwyddyn 10 yn Ysgol Bro Dinefwr a oedd wedi ennill pedair medal aur ym Mhencampwriaeth Cwrs Byr Nofio Cymru 2018. Dylan bellach yw Pencampwr Cymru yn y cystadlaethau nofio 50m Dull Rhydd, 100m Dull Rhydd, 50m ar y Cefn a 100m ar y Cefn;
  - Mark Drakeford, a gafodd ei fagu yng Nghaerfyrddin, ar gael ei ethol yn Brif Weinidog Cymru;
- Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r trigolion canlynol o Sir Gaerfyrddin a wobrwywyd yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd:

  **Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig**
  - Barry Liles am ei wasanaethau i sgiliau a phobl ifanc Cymru. Roedd Mr Liles, a fu'n Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a chyn Brifathro a Phrif Swyddog Coleg Sir Gâr, yn Hyrwyddwr Sgiliau Cymru;
  - Dr Nicola Phillips am ei gwasanaethau i ffisiotherapi. Er bod Dr Phillips yn byw yng Nghoety, Pen-y-bont ar Ogwr, hi yw merch Gordan Phillips, sef cwrwglwr ymddeoledig o Gaerfyrddin;

  **Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig**
  - Michael Thomas John Ponton o Lan-gain, cyn Aelod Annibynnol (Cymuned) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, am ei wasanaethau i ofal iechyd;
  - Nikki Symmons, pennaeth Ysgol Heol Goffa, Llanelli, am ei gwasanaethau i addysg;

  **Medal yr Ymerodraeth Brydeinig**
  - Cairn Newton-Evans o Lanelli, Prif Swyddog Arbennig Heddlu Dyfed-Powys, am ei wasanaethau i'r heddlu a'r gymuned LGBT yng Nghymru.

4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 12FED RHAGFYR 2018.**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018 yn gofnod cywir.**

## 5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

### 6.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG & PHLANT

Nodwyd bod y Cynghorydd Bill Thomas yn absennol o'r cyfarfod felly byddai'n derbyn ymateb ysgrifenedig i'w gwestiwn gan y Cynghorydd Glynog Davies.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Andre Morgan, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, a wahoddwyd i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2017/18 i'r Cyngor.

Diolchodd Mr Morgan i'r Cyngor am y cyfle i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar ran y Pwyllgor Safonau ac aeth yn ei flaen i roi trosolwg o'r materion y bu'r Pwyllgor yn mynd i'r afael â hwy yn ystod 2017/18. Roedd y rhain yn cynnwys Cwynion Côd Ymddygiad, Ceisiadau am Ollyngiad, Hyfforddiant Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ac adolygu Polisi Datgelu Camarfer yr Awdurdod. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi derbyn Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i goflyfr Côd Ymddygiad ynghyd â phenderfyniadau achos gan Banel Dyfarnu Cymru a phenderfyniadau achos Pwyllgorau Safonau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Morgan am ei gyflwyniad ac am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau am y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2017 a 31 Mawrth 2018.**

## 8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR, 2019/20

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd A. Speake wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y Siambr cyn i'r eitem hon gael ei thrafod.]

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad ar Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 a chafodd wybod bod Llywodraeth San Steffan, yn 2013, wedi creu cynllun lleol yn lle Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor cenedlaethol. Adroddwyd bod y cynghorau, yn Lloegr, yn gweithredu eu cynllluniau eu hunain; fodd bynnag, roedd y sefyllfa yn wahanol yng Nghymru gyda'r cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru a datblygodd cynllun Cymru gyfan, a oedd wedi bod ar waith ers yr adeg honno. Er bod y cynllun wedi'i sefydlu ar sail Cymru gyfan, roedd yn

ofynnol yn ôl y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig fod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ffurfiol erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn.

Atgoffodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau yr aelodau fod yn rhaid i awdurdodau lleol ail-fabwysiadu'r cynllun yn flynyddol, er gwaethaf y ffaith mai un cynllun Cymru gyfan ydoedd, os oeddent am fanteisio ar y pwerau disgresiwn cyfyngedig oedd ganddynt i amrywio'r cynllun safonol mewn perthynas â'r tri maes a amlinellir yn yr adroddiad. Atgoffwyd yr aelodau ganddo fod Cyngor Sir Caerfyrddin, ers i'r cynllun gael ei gyflwyno, wedi defnyddio ei bwerau disgresiwn (yn yr un modd â'r rhan fwyaf o awdurdodau Cymru) ac wedi diystyru'n llawn unrhyw Bensiynau Anabledd, Pensiynau Gweddwon Rhyfel a thaliadau tebyg wrth gyfrifo hawliad. Atgoffwyd yr aelodau ganddo y byddai Sir Gaerfyrddin, trwy dderbyn argymhellion yr adroddiad, yn parhau i ddiystyru'r taliadau hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cyngor ar gyfer 2019/20:**

**8.1 Yn mabwysiadu'n ffurfiol Gynllun safonol Cymru Gyfan ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddarperir yn:**

- **a) Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a**
- **b) Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**8.2 Yn gweithredu'r ffigurau uwchraddio blynyddol (a ddefnyddir wrth gyfrifo hawliad) a'r diwygiadau technegol eraill sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019, a fydd yn dod i rym ym mis Ionawr 2019**

**8.3 Yn parhau i arfer ei ddisgresiwn o ran elfennau disgresiynol cyfyngedig y cynllun rhagnodedig, fel y'u hamlinellir yng Nghrynodeb Gweithredol yr adroddiad.**

## 9. YSTRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

### 9.1. STRATEGAETH DDIGARTREFEDD RANBARTHOL

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018, wedi ystyried adroddiad ar Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol arfaethedig a oedd yn nodi'r themâu a'r blaenoriaethau allweddol ynghylch sut y byddai Cynghorau Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Phowys yn atal digartrefedd dros y blynyddoedd nesaf. Nodwyd mai nod y strategaeth oedd sicrhau bod digon o ddewisiadau a chyfleoedd ar gael i bobl leol gael mynediad at dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol i'w galluogi i aros yn y gymuned o'u dewis.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"Bod y Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol yn cael ei chymeradwyo"**

9.2. **ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH CANOL BLWYDDYN EBRILL 1AF 2018 I MEDI 30AIN 2018**

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018, wedi cymeradwyo'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau rheoli'r trysorlys o 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2018, yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2018 - cofnod 10).

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol**

**'derbyn yr adroddiad'.**

**10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-.**

**10.1. 3YDD RHAGFYR, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2018.**

**10.2. 17EG RHAGFYR, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2018.**

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**